Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned

## Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Benfro

**Neuadd y Sir**
**Hwlffordd**
**Sir Benfro**
**SA61 1TP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Benfro

Yr enw ar y ddarpariaeth ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn Sir Benfro yw Sir Benfro yn Dysgu. Y prif ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw: Cyngor Sir Penfro (Sir Benfro yn Dysgu) a Dysgu Oedolion Cymru. Fodd bynnag, mae ystod eang o sefydliadau'n rhan o Rwydwaith Dysgu Sir Benfro, gan gynnwys Coleg Sir Benfro, Canolfan Gymunedol Bloomfield Arberth, y Ganolfan Byd Gwaith a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro. Mae adrannau eraill yng Nghyngor Sir Penfro yn cyfrannu hefyd, fel Gweithffyrdd, Gwaith yn yr Arfaeth a'r Gwasanaeth Ieuenctid. Hefyd, mae Cyngor Sir Penfro'n cydweithio â'r gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi ffoaduriaid o Syria ar y Cynllun Adsefydlu Pobl Fregus (VPRS) a ariennir gan y Swyddfa Gartref. Mae Sir Benfro yn Dysgu yn cynnig dosbarthiadau mewn canolfannau dysgu cymunedol y mae'r cyngor yn berchen arnynt yn Hwlffordd, Dinbych-y-pysgod ac Abergwaun ac mewn canolfannau cymunedol a lleoliadau eraill ar draws cefn gwlad Sir Benfro.

Mae tua 125,000 o bobl yn byw yn Sir Benfro. Yn ôl y data sydd ar gael, tyfodd poblogaeth Sir Benfro 8.2% rhwng y cyfrifiadau yn 2001 a 2011. O'r boblogaeth gyfredol o tua 125,000, mae tua 21,300 (17%) ohonynt dan 16 oed a 31,500 (25%) yn 65 oed neu'n hŷn.

Ym mis Medi 2021, y gyfradd gyflogaeth yn Sir Benfro oedd 75%, sydd fymryn yn uwch na'r ffigur yng Nghymru, sef 73.8%. Yn 2021, yr enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrifol) oedd £532. Dyma oedd y pumed isaf ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) 2019 yn dangos ardaloedd o amddifadedd yn Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro.

Mae bron pob un o breswylwyr Sir Benfro o gefndir ethnig gwyn. Mae Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2021 yn dangos mai canran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n siarad Cymraeg yn Sir Benfro yw 32%, sef cynnydd o 10% mewn 10 mlynedd.

Mae gan tuag 83% o oedolion yn Sir Benfro gymhwyster lefel 2, sydd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae cyfran yr oedolion sydd â chymhwyster lefel 3 yn gyfwerth â chyfartaledd Cymru (62%) ac mae gan lai gymhwyster lefel 4 (37%) na chyfartaledd Cymru, sef 41%.

Yn 2019/2020, cymerodd 1,832 o oedolion ran mewn cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned. Roedd llawer o'r dysgwyr hyn (89%) yn ystyried eu hunain yn Wyn Prydeinig. Cawsant eu cefnogi gan saith aelod staff amser llawn, 32 aelod staff rhan-amser a 111 o diwtoriaid[1]. Yn 2020/2021, gostyngodd nifer yr oedolion a gymerodd ran mewn cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned i 750 oherwydd y pandemig COVID-19. Cawsant eu cefnogi gan wyth aelod staff amser llawn, 31 aelod staff rhan-amser a 91 o diwtoriaid. Yn 2021/2022, mae nifer y staff yn parhau ar lefel y flwyddyn gynt.

---

[1] Mae'r niferoedd sy'n cyfeirio at staff amser llawn, rhan-amser a'r gronfa tiwtoriaid yn y ddwy flwyddyn academaidd yn cynnwys tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion sy'n rhan o ddarpariaeth Sir Benfro yn Dysgu ond sy'n cael eu harolygu ar wahân gan Estyn.

## Crynodeb

Mae Sir Benfro yn Dysgu yn cynnig ystod briodol o ddosbarthiadau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn darparu ystod dda o gyrsiau iechyd a lles adfer cost lawn i fodloni buddiannau personol dysgwyr. Mae'n hwyluso nifer o glybiau lle mae aelodau'n cymdeithasu wrth barhau i ddysgu ar eu cyflymder eu hunain. Trwy gydweithio ag ysgolion cynradd lleol, mae prosiect Sbardun yn cynnig ystod dda o weithgareddau dysgu fel teulu. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd yn nifer y rhai sy'n crybwyll eu bod yn siarad Cymraeg, mae prinder dosbarthiadau i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llythrennedd Cymraeg neu ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae dysgwyr yn teimlo y cânt eu cefnogi'n dda gan eu tiwtoriaid, yn enwedig yn ystod y pandemig. Gweithiodd Sir Benfro yn Dysgu yn galed yn ystod y pandemig i gynorthwyo dysgwyr i barhau â'u hastudiaethau ar-lein. Roedd hyn yn cynnwys cyflenwi offer digidol a meddalwedd i'r dysgwyr hynny nad oedd ganddynt yr offer neu'r adnoddau priodol i'w galluogi i barhau i ddysgu. Darparodd hyfforddiant i diwtoriaid hefyd ar ddefnyddio meddalwedd briodol a thechnegau addysgu ar-lein. Roedd llawer o ddysgwyr a thiwtoriaid yn gwerthfawrogi gallu parhau i weithio â'i gilydd a bod yn rhan o gymuned. Mewn ychydig iawn o achosion, ymunodd dysgwyr o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac ymhellach i ffwrdd â'r dosbarthiadau, gan ddod â safbwyntiau newydd â nhw.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu hastudiaethau ac yn mwynhau dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gyfforddus yn dychwelyd i ddysgu wyneb-yn-wyneb. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae'n well gan ddysgwyr barhau â'u dosbarthiadau ar-lein, gan fod hynny'n cydweddu'n well â'u hymrwymiadau personol a'u ffordd o fyw.

Mae gan Sir Benfro yn Dysgu ddatganiad clir o genhadaeth sy'n cael ei ategu gan nodau ac amcanion strategol. Fodd bynnag, nid yw'r targedau a bennwyd i wella'r gwasanaeth yn ddigon penodol i arweinwyr ddadansoddi deilliannau ac effaith strategaethau yn effeithiol. Er bod gan Sir Benfro yn Dysgu lawer o gysylltiadau â sefydliadau eraill yn yr ardal, nid yw'r cysylltiadau hyn yn ddigon ffurfiol i elwa ar fanteision partneriaeth gynaledig o ran eglurder y llwybrau dilyniant i ddysgwyr a chost effeithiolrwydd.

## Argymhellion

A1 Cryfhau ansawdd gwerthuso a dadansoddi i wella cywirdeb cynllunio ar gyfer gwelliant, gan sicrhau y caiff blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eu hystyried

A2 Ymchwilio i greu cysylltiadau ffurfiol â darparwyr eraill dysgu i oedolion i feithrin partneriaeth ehangach a chynaledig er budd cyffredin i ddarparu, i leihau dyblygu darpariaeth yn ddiangen ac i rannu adnoddau, ac i ddysgwyr allu manteisio ar adnoddau diagnostig a llwybrau dilyniant sydd wedi'u mynegi'n glir

A3 Cynyddu'r cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg, a dysgwyr Cymraeg uwch, ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a gwella eu medrau llythrennedd Cymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd y darparwr.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos i'w lledaenu ar wefan Estyn ynglŷn â darpariaeth Sbardun. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i bwriadu ar gyfer dysgu i deuluoedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Sir Benfro. Caiff darpariaeth ei chyflwyno ar y cyd â saith ysgol gynradd. Mae'n canolbwyntio ar helpu rhieni i dreulio amser gwerthfawr â'u plant a gwella eu medrau magu plant a'u dealltwriaeth o fedrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol i gefnogi addysg eu plant.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Gwna llawer o ddysgwyr gynnydd da yn eu dysgu. Maent yn caffael, datblygu a chymhwyso medrau newydd ac yn cyflwyno gwaith o safon dda.

Mewn dosbarthiadau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyfrannu'n gadarnhaol ac yn rhyngweithio'n dda â'u tiwtoriaid a dysgwyr eraill. Maent yn datblygu eu medrau gwrando, darllen, ysgrifennu a siarad yn dda yn unol â'u lefelau. Mae llawer o ddysgwyr yn darllen ar goedd yn gynyddol gywir ac yn ynganu geiriau Saesneg yn gywir. Mae llawer o ddechreuwyr yn deall cwestiynau syml am ble maent yn byw a phynciau fel y tywydd, a gallant ateb cwestiynau uniongyrchol yn briodol. Mae ychydig o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig pan fydd tiwtor yn ymestyn cwestiynau y tu hwnt i'r pwnc addysgu. Mae'r lleiafrif ohonynt yn ymestyn eu hatebion ac yn caffael a chymhwyso geirfa benodol newydd yn dda. Mae ychydig ohonynt yn dueddol o ateb gydag atebion ac ymadroddion cyfyngedig yn unig.

Mewn dosbarthiadau SSIE, mae llwybr dilyniant clir i ddysgwyr drwy'r lefelau. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn cyflwyno'r amser amodol ac mae dysgwyr yn ei ddefnyddio mewn cystrawennau symlach neu fwy cymhleth yn ôl eu rhuglder a'u lefel ddysgu. Maent yn datblygu hyn yn dda mewn cyd-destunau ymarferol, fel wrth astudio ar gyfer profion gyrru. Yn yr enghreifftiau gorau ar y lefelau uwch, mae dysgwyr yn dangos lefelau uchel o ddealltwriaeth a hyblygrwydd ieithyddol, gan gynnwys cymhwyso arlliw a hiwmor. Maent yn cyfuno medrau llythrennedd yn effeithiol iawn ac yn datblygu gwerthfawrogiad o luosieithrwydd wrth gymharu'r cyffelybiaethau rhwng Saesneg, ieithoedd eraill a'u hiaith gyntaf.

Mewn ychydig o wersi ar draws y ddarpariaeth, mae dysgwyr yn datblygu eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ar ffurf cyfarchion ac ymadroddion sylfaenol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw dysgwyr yn gwella eu safonau llythrennedd yn y Gymraeg.

Gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n mynychu cyrsiau i wella eu rhifedd gynnydd cadarn, drwy symud o lefel mynediad i gymwysterau lefel 2, lle bo hynny'n briodol. Maent yn llawn cymhelliant, yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'u tiwtoriaid ac yn magu hyder. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn canolbwyntio ar wella eu cymwysterau a'u gallu i ddefnyddio rhifedd yn eu bywydau personol, er enghraifft wrth helpu eu plant â'u gwaith ysgol neu wrth wella eu rhagolygon gyrfa. Mewn ychydig o enghreifftiau nodedig, mae dysgwyr sy'n gweithio fel cynorthwywyr cymorth dysgu mewn ysgolion cynradd yn llwyddo i ddefnyddio graffiau a siartiau'n effeithiol. Mae hyn yn gwella eu gallu i gymhwyso eu gwybodaeth yn ymarferol â disgyblion ysgol, gan gyfoethogi profiadau addysgol y disgyblion hyn a rhoi hwb i'w dysgu proffesiynol a'u hunan-barch eu hunain.

Gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau i wella eu medrau digidol gynnydd addas o'u mannau cychwyn amrywiol. Mewn sesiynau fel Camau Cyntaf Digidol a chyrsiau ar ddefnyddio llechi cyfrifiadurol i fanteisio ar gyfryngau cymdeithasol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynyddu eu gwybodaeth am ddefnyddio dyfeisiau digidol a phecynnau meddalwedd a'u swyddogaethau. Mae'r

rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymhwyso’r wybodaeth newydd hon yn llwyddiannus mewn ystod o weithgareddau, fel defnyddio’r rhyngrwyd i wneud cais am gyflogaeth a chwarae gemau a chadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Mae dosbarthiadau llythrennedd a rhifedd sy’n darparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn sicrhau bod y dysgwyr hyn yn gwella eu medrau ar gyflymdra sy’n briodol iddynt. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac adfer perthnasoedd personol ar ôl y cyfnodau clo, pan nad oedd hynny’n bosibl.

Gwna’r rhan fwyaf o ddysgwyr gynnydd llwyddiannus o fewn ac ar draws lefelau dysgu mewn medrau bywyd a rhaglenni gwaith. Maent yn dwyn dysgu blaenorol i gof ac yn adeiladu arno’n briodol. Mae nifer sylweddol o ddysgwyr ar y rhaglenni hyn yn mynychu rhagor o gyrsiau i wella eu cyflogadwyedd neu i symud ymlaen yn eu cyflogaeth gyfredol. Fodd bynnag, mae’r ffocws ar gyflogadwyedd wedi’i arwain gan ddysgwyr yn hytrach na chael ei bennu gan ddeilliannau dysgu targedig sydd wedi’u harwain gan y darparwr.

Mewn prosiectau dysgu teuluol ‘Sbardun’, gwna dysgwyr gynnydd da o ran datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, dysgu, medrau artistig, medrau cymdeithasol a gwybodaeth gyffredinol wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o ddysgu eu plant. Maent yn datblygu strategaethau effeithiol i gefnogi ymddygiad eu plant y tu mewn a’r tu allan i’r ysgol. Mae bron pob un o’r dysgwyr mewn dosbarthiadau celf a chrefft ‘Sbardun’ yn gweithio’n frwdfrydig i ddatblygu eu medrau ymarferol a chreadigol. Maent yn cyfathrebu’n dda â’u plant ac yn cynorthwyo eu plant i gwblhau eu gwaith eu hunain.

Mewn dosbarthiadau lles a diddordeb personol, fel pilates, mae llawer o ddysgwyr yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol ac yn gwella eu hiechyd a ffitrwydd. Mewn dosbarthiadau lliwio gwydr, gwna dysgwyr gynnydd cadarn ac maent yn dysgu i ddylunio, paratoi a chreu eu darnau gwydr lliw eu hunain. Maent yn gweithio’n dda yn annibynnol, yn cadw at arfer iechyd a diogelwch ac yn datblygu eu galluoedd creadigol ac artistig.

Mewn gwersi hanes lleol, mae dysgwyr yn gwella eu hymwybyddiaeth o hanes a diwylliant Cymru. Maent yn dysgu am y llwybrau pererinion canoloesol o arwyddocâd hanesyddol ar draws y sir a’r sefydliadau crefyddol sy’n gysylltiedig â nhw, yn ogystal â ffigurau hanesyddol allweddol o fytholeg Cymru. Mewn dosbarthiadau celf a chrefft, caiff dysgwyr eu cyflwyno i waith artistiaid ac awduron lleol sy’n dwysàu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o’r dysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn mwynhau’r dosbarthiadau maent yn eu mynychu. Teimlai’r rhan fwyaf o ddysgwyr eu bod yn cael cefnogaeth dda gan eu tiwtoriaid a’r gweinyddwyr yn y canolfannau dysgu, sydd â rôl allweddol mewn datblygu hyder dysgwyr i ymgysylltu’n llawn â’u dysgu, er enghraifft drwy helpu dysgwyr i drefnu cludiant a chyllid. Mae dysgwyr yn elwa ar gymorth bugeiliol parhaus gan eu tiwtoriaid a gweinyddwyr canolfannau, sy’n eu helpu i gynnal presenoldeb a chymhelliant. Er enghraifft, mae dysgwyr yn gwerthfawrogi cyfarfodydd ‘aros ac adolygu’ â’u tiwtoriaid a galwadau ffôn rheolaidd gan weinyddwyr cyrsiau. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi’r gofal y mae tiwtoriaid

wedi'u rhoi i'w cynorthwyo ar hyd y pandemig COVID-19, fel trwy fenthyca offer digidol a chysylltiad rheolaidd dros y ffôn a thrwy'r e-bost.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn siarad yn gadarnhaol am y manteision a ddaw yn sgil eu profiadau dysgu. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn dosbarthiadau TGAU a Sgiliau Hanfodol yn cydnabod y manteision ar gyfer eu rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol a chael dyrchafiad yn y gwaith. Mae dysgwyr ag ADY mewn menter gymdeithasol cyflogaeth a gynorthwyir yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau bywyd eraill i'w helpu i fyw'n annibynnol. Dywed llawer o ddysgwyr bod eu hiechyd a lles meddyliol wedi gwella o ganlyniad i'w dysgu. Mewn dosbarthiadau iechyd a ffitrwydd, dywed dysgwyr eu bod yn teimlo'n llawn egni a dan lai o straen ar ôl eu dosbarthiadau. Mewn dosbarthiadau 'Sbardun', mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau cyfleoedd i roi cynnig ar weithgareddau newydd â'u plant, fel gwyllt-grefft *(bushcraft)*, roboteg a chrefftau mosaig. Crybwyllant fod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau magu plant ac yn gwella cyfleoedd i'w plant.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu wyneb-yn-wyneb ac mewn sesiynau ar-lein. Mae dysgwyr yn parchu safbwyntiau pobl eraill. Maent yn gwrando'n astud ar diwtoriaid a dysgwyr eraill ac yn hapus i gyfrannu i drafodaethau dosbarth pan gânt gyfle i wneud hynny. Mewn sesiynau ar-lein, mae bron pob un o'r dysgwyr yn dilyn moesau ar-lein, fel defnyddio'r cyfleusterau llaw i fyny a sgwrsio pan hoffent gyfrannu.

Mae bron pob un o'r dysgwyr mewn lleoliadau dysgu wyneb-yn-wyneb yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn eu hamgylcheddau dysgu a chânt eu sicrhau gan y mesurau a gymerwyd i leihau'r perygl o drosglwyddo COVID-19. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cydymffurfio â'r mesurau diogelwch, fel gwisgo gorchudd wyneb, mesurau hylendid personol a chadw pellter cymdeithasol.

Mae ychydig o ddysgwyr yn parhau i fanteisio ar ddarpariaeth o bell. Maent yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd y mae hyn yn ei roi iddynt. Mae'n eu helpu i fanteisio ar ddarpariaeth efallai na fyddant wedi gallu manteisio arni fel arall.

Mae presenoldeb mewn sesiynau wyneb-yn-wyneb yn dda, ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cysylltu â'u tiwtor neu weinyddwyr eu cwrs os na allant fod yn bresennol, sy'n atgyfnerthu'r ymddygiad sy'n cael ei ddisgwyl mewn swydd.

Ar draws y ddarpariaeth, mae gan lawer o gyrsiau gynrychiolwyr dysgwyr sy'n cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd cyrsiau a rhannu eu barn ar brofiadau dysgwyr. Fel arfer, caiff y cyfarfodydd eu cynnal wyneb-yn-wyneb, ond mae cyfyngiadau'r pandemig wedi tarfu ar hyn.

Mae llawer o ddysgwyr yn llenwi gwerthusiadau diwedd cwrs ac mae deilliannau'n cael eu crybwyll yn yr adroddiad hunanwerthuso. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei datblygu a'i dadansoddi'n ddigonol i gynllunio ffyrdd ystyrlon i wella darpariaeth ar lefel cwrs, canolfan neu bartneriaeth.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae cwricwlwm Sir Benfro yn Dysgu yn cynnig ystod amrywiol o gyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ailddechrau neu symud ymlaen yn eu haddysg drwy

ddarpariaeth dargedig, clybiau a gweithgareddau creadigol a pherfformio. Caiff y gweithgareddau hyn eu cynnal mewn ystod o leoliadau addas mewn cymunedau ledled y sir. Mae'r lleoliadau'n groesawgar, yn aml yn bwrpasol ar gyfer dysgu oedolion, ac mae llawer o ddysgwyr yn teimlo ymdeimlad o berchenogaeth dros y ddarpariaeth oherwydd ble y mae wedi'i lleoli.

Mae sail resymegol glir ar gyfer cynnig amrywiaeth o ddosbarthiadau wyneb-yn-wyneb neu drwy ddysgu ar-lein, dysgu hybrid neu ddysgu cyfunol. Mae'r sail resymegol ar gyfer mathau gwahanol o ddarpariaeth wedi'i hadeiladu ar anghenion a dewisiadau dysgwyr. Er enghraifft, caiff ychydig o gyrsiau eu darparu ar-lein oherwydd bod cartrefi dysgwyr wedi'u gwasgaru ar draws y sir.

Mae ystod o ddosbarthiadau adfer cost lawn, fel ieithoedd, celf, crefftau traddodiadol a dosbarthiadau ymarfer y meddwl a'r corff yn cefnogi diddordeb a lles personol dysgwyr. Mae'r dosbarthiadau hyn yn cynnig profiadau newydd i ddysgwyr, yn gwella eu gwybodaeth a'u medrau ac yn ehangu eu gorwelion.

Mae llawer o ddosbarthiadau'n cynorthwyo dysgwyr i ddychwelyd i ddysgu. Mae darpariaeth medrau hanfodol a dosbarthiadau TGAU yn datblygu medrau personol dysgwyr ac yn gwella eu rhagolygon cyflogaeth. Mae darpariaeth medrau bywyd a SSIE yn gwella medrau cyfathrebu dysgwyr, yn datblygu eu medrau dysgu ac yn eu helpu i integreiddio yn y gymuned. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw darpariaeth i fodloni anghenion cyflogaeth yn cael ei hadolygu'n ddigon rheolaidd i'w chysylltu'n effeithiol ag anghenion cyflogaeth lleol.

Mae rhaglen dysgu fel teulu 'Sbardun', sydd wedi'i hen sefydlu, yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd i gefnogi rhieni a phlant. Mae'r rhaglen yn cynnig ystod eang o weithgareddau addysgol, artistig a diwylliannol symbylol sy'n helpu meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu, datblygu diwylliant dysgu o fewn y teulu a helpu rhieni a phlant i chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol a'r gymuned.

Mae darpariaeth i ddysgwyr ag ADY yn briodol i'w hanghenion. Mae'r ddarpariaeth hon yn cefnogi amrywiaeth o anghenion unigol, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Mae hefyd yn datblygu eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol.

Yn gyffredinol, mae darpariaeth yn bodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned ac mae'n gwasanaethu anghenion y gymuned, yn aml ar sail sy'n cael ei harwain gan alw. Fodd bynnag, nid oes dull strategol o ran cynllunio'r cwricwlwm. Mae cydweddu darpariaeth i sbardunau polisi cenedlaethol a rhanbarthol, fel Cymraeg 2050, yn fylchog. Nid oes unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i ddysgwyr ac ychydig iawn o ddarpariaeth ddwyieithog ac, o ganlyniad, nid oes cyfle i siaradwyr Cymraeg wella eu medrau llythrennedd.

Er bod llawer o ddysgwyr unigol yn cael cyngor a chymorth da, bach iawn o strategaethau neu gyfleoedd cynlluniedig sydd i helpu dysgwyr symud ymlaen i lefelau dysgu uwch neu ddarparwyr eraill.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn brofiadol ac yn dangos gwybodaeth bynciol dda. Maent yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn cynnig cymorth ac anogaeth briodol i ddysgwyr i'w helpu i wneud cynnydd cynaledig yn eu dysgu. Mewn tua hanner o

achosion, mae tiwtoriaid yn defnyddio eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddysgwyr i gyd-destunoli dysgu a gweithgareddau asesu yn briodol.

Nid yw tiwtoriaid yn cynllunio'n ddigon da i ymwreiddio medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a'r Gymraeg ar draws pob darpariaeth ac ychydig iawn o diwtoriaid sy'n cynllunio i ymwreiddio datblygiad y medrau hyn ar draws darpariaeth medrau nad ydynt yn hanfodol a SSIE.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynnig ystod o weithgareddau dysgu sy'n briodol i'r lefel ac adnoddau defnyddiol, sy'n cynnal diddordeb dysgwyr ac yn cynnig her ddigonol iddynt. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu drwy gydol eu sesiynau ac yn gwneud cynnydd da mewn dysgu. Mae bron pob sesiwn yn symud ymlaen ar gyflymdra sy'n briodol i lefelau'r dysgwyr.

Mae llawer o diwtoriaid yn gweithio'n hyblyg ac yn addasu eu cynlluniau i ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg ymhlith dysgwyr. Mewn sesiynau dysgu fel teulu, mae tiwtoriaid yn addasu eu dulliau addysgu'n fedrus i fodloni anghenion uniongyrchol a chyfnewidiol oedolion sy'n dysgu fel teulu a'u plant.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn cadw cofnodion ffocysedig i olrhain a monitro cynnydd dysgwyr. Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn dda i gipio mannau cychwyn dysgwyr, nodau tymor byr ac adolygiadau cynnydd. Trwy'r cynlluniau dysgu unigol, maent yn rhoi adborth amserol a phwrpasol i ddysgwyr. Mae llawer o diwtoriaid yn holi'n effeithiol ac, yn yr enghreifftiau gorau, maent yn ymestyn dealltwriaeth dysgwyr yn dda drwy holi a rhoi adborth.

Gwna llawer o ddysgwyr ddefnydd da o gynlluniau dysgu unigol i fyfyrio ar eu perfformiad eu hunain ac maent yn ymateb i adborth ac arweiniad gan diwtoriaid.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan Sir Benfro yn Dysgu wefan ddefnyddiol sy'n rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am gyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru a chyrsiau adfer cost lawn. Mae'r wefan yn cynnig 'siop un stop', sy'n galluogi dysgwyr i wneud cais, ymrestru a thalu ar-lein. Ar ben hynny, mae Sir Benfro yn Dysgu yn hyrwyddo ei ddarpariaeth drwy bosteri a thaflenni, yn ogystal â thrwy ei ysgolion cynradd partner i alluogi'r rhai nad oes ganddynt ddulliau digidol i fanteisio arni. Mae Sir Benfro yn Dysgu yn hwyluso clybiau hunanariannu i helpu dysgwyr i archwilio diddordebau fel hanes lleol, crefftau ac ysgrifennu creadigol, ac mae'n cynnig ychydig o fwrsariaethau i ddysgwyr barhau â chyrsiau adfer cost lawn. Mae llawer o ddysgwyr yn croesawu'r dewis o ran darpariaeth ac, yn benodol, y cyrsiau ar-lein a ddarparwyd yn ystod y pandemig.

Mae tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn cefnogi eu hanghenion lles wrth iddynt godi drwy eu rhyngweithiadau yn yr ystafell ddosbarth a'r amgylchedd dysgu. Mae gweinyddwyr canolfannau, tiwtoriaid a chynghorwyr 'Sbardun' yn cysylltu â dysgwyr yn rheolaidd ac yn mynd ar drywydd absenoldebau a lles trwy alwadau bugeiliol i helpu i gynnal ymgysylltiad dysgwyr.

Mae llawer o diwtoriaid yn cynnig cyngor ac arweiniad defnyddiol i ddysgwyr ar sut y gallant symud ymlaen i'r lefel nesaf neu i gyrsiau addas ar yr un lefel. Mae enghreifftiau da lle mae dysgwyr wedi gwneud cynnydd sylweddol yn eu bywydau

personol a lle mae dysgwyr yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu cymuned leol. Fodd bynnag, nid yw Sir Benfro yn Dysgu yn cynllunio'n ddigon strategol ar gyfer dilyniant dysgwyr ac nid yw'n cydweithio'n ddigon agos â phartneriaid lleol i sefydlu llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr. Mae gan Sir Benfro yn Dysgu berthynas dda ag ystod eang o ddarparwyr yn yr ardal, ond mae'r cysylltiadau hyn yn dibynnu gormod ar gysylltiadau personol ac nid ydynt wedi'u ffurfioli'n ddigon da i sicrhau manteision cynaledig i ddysgwyr.

Nid yw Sir Benfro yn Dysgu yn gwerthuso dilyniant dysgwyr na grwpiau o ddysgwyr yn ddigon effeithiol. Mae hyn yn golygu nad oes ganddo drosolwg o faint o ddysgwyr sy'n symud ymlaen i'r lefel nesaf o ddysgu, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae ychydig o ddysgwyr yn treulio cyfnod rhy hir yn ailadrodd cyrsiau ar yr un lefel ac nid ydynt yn symud ymlaen yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn teilwra cymorth dysgu i fodloni anghenion dysgwyr. Nid oes gan Sir Benfro yn Dysgu wasanaethau cymorth neu ddiagnostig arbenigol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ac nid yw'n manteisio ar ddarparwyr lleol eraill i helpu ychwanegu at hyn. Gwna tiwtoriaid ddefnydd priodol o gynlluniau dysgu unigol i gytuno ar dargedau i ddysgwyr, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw Sir Benfro yn Dysgu yn monitro nac yn gwerthuso cynnydd y grŵp hwn o ddysgwyr yn ddigon manwl i sicrhau cynnydd cynaledig dysgwyr.

Sicrhaodd Sir Benfro yn Dysgu a'r awdurdod lleol fod dysgwyr yn gallu cymryd rhan mewn dysgu ar-lein yn ystod y pandemig, a darparu'r offer a'r feddalwedd briodol i ddysgwyr fanteisio ar ddysgu ar-lein, yn ôl yr angen.

Yn ystod y pandemig, bu ffocws clir ar gadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein a defnyddiwyd ystod o adnoddau defnyddiol i helpu dysgwyr a staff i gadw'n ddiogel. Mae pob canolfan wedi darparu amgylchedd dysgu diogel o ran COVID-19 y gall dysgwyr dychwelyd iddo'n hyderus.

Mae trefniadau Sir Benfro yn Dysgu i ddiogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau da â byrddau diogelu lleol a rhanbarthol. Mae ganddo arferion recriwtio diogel sy'n sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn cael gwiriadau cyn-cyflogaeth manwl. Mae'r holl staff wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion gorfodol ac mae bron pob un o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar sut i atal unigolion rhag cael eu radicaleiddio.

Mae Sir Benfro yn Dysgu yn cynnig cronfa bwrsariaeth fach i ddysgwyr sydd eisiau dilyn darpariaeth achrededig ond na allant gyfrannu'n llawn at ffioedd y cyrsiau a'r arholiadau. Mae gwybodaeth am hyn ar gael i bob dysgwr drwy'r llawlyfr i ddysgwyr ac ar-lein.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan Sir Benfro yn Dysgu strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth clir. Caiff darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ei harwain gan y Pennaeth Ieuenctid a'r Gymuned, a ddechreuodd yn y swydd ym mis Ionawr 2022. Caiff ei gefnogi gan bedwar cydlynydd dysgu gydol oes a chydlynydd medrau hanfodol. Rhyngddynt, mae'r cydlynwyr yn rhannu trosolwg o feysydd y cwricwlwm a'r canolfannau dysgu.

Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd i gyflwyno darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ledled Sir Benfro. At ei gilydd, maent yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau lleol, fel medrau hanfodol a SSIE, yn ogystal â chyflwyno cyrsiau sy'n hyrwyddo'r agenda addysg ac iechyd ehangach a chyrsiau sydd â'r nod o wella rhyngweithiadau a lles teuluol. Fodd bynnag, mae llai o ffocws ar flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol eraill sy'n ymwneud â Cymraeg 2050, y cynllun cyflogadwyedd a sgiliau, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynlluniau medrau rhanbarthol.

Mae gan Sir Benfro yn Dysgu ddatganiad clir o genhadaeth sy'n cael ei ategu gan nodau ac amcanion strategol priodol. Mae'r prosesau hunanwerthuso'n galluogi dysgwyr i ddarparu trosolwg cynhwysfawr o gyflawniadau nodedig a meysydd i'w datblygu. Mae'r cydlynwyr dysgu gydol oes a'r cydlynydd medrau hanfodol yn adolygu deilliannau dysgwyr a meysydd i'w datblygu yn rheolaidd. Fodd bynnag, er bod y targedau yn y cynllun gwella ansawdd yn cyfateb yn dda i'r meysydd i'w datblygu, nid ydynt wedi'u fframio'n ddigon manwl i sicrhau dadansoddiad effeithiol o ddeilliannau a'r effaith ar wella perfformiad. Mae rhaglen i fonitro perfformiad tiwtoriaid. Fodd bynnag, nid yw'r broses yn ddigon systematig i amlygu problemau neu berfformiad cyffredinol, er enghraifft y defnydd prin o'r Gymraeg yn ystod sesiynau dwyieithrwydd.

Mae gan diwtoriaid sy'n gweithio i Sir Benfro yn Dysgu gymwysterau da yn eu meysydd pwnc. Mae Sir Benfro yn Dysgu wedi cefnogi iechyd a lles tiwtoriaid yn dda ar hyd y pandemig. Mae'r darparwr yn cynnig modiwlau hyfforddiant craidd ac ystod eang o rai dewisol i diwtoriaid i'w helpu i wella eu haddysgu a dysgu. Mae tiwtoriaid yn cwblhau modiwlau datblygiad proffesiynol craidd gorfodol sy'n gysylltiedig â materion fel diogelu. Maent hefyd yn cael cynnig tri chwrs o'u dewis yn rhad ac am ddim i fodloni anghenion datblygiad proffesiynol unigol. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid wedi manteisio ar yr hyfforddiant yn ystod cyfnod y pandemig. Mae llawer ohonynt wedi gwella eu medrau dysgu ac addysgu digidol. O bryd i'w gilydd, mae partneriaid Sir Benfro yn Dysgu yn ymuno â phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned cyfagos i gyflwyno hyfforddiant proffesiynol gan ddarparwyr allanol. Mae hyn wedi cael yr effaith fuddiol o rannu costau a chynnig cyfleoedd i gydlynwyr a thiwtoriaid rannu profiadau.

Mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth dda o'r materion ariannol yn ymwneud â darparu dysgu oedolion yn y gymuned. Maent yn adolygu'r gyllideb yn rheolaidd ac yn blaengynllunio i liniaru'r gostyngiad mewn cyllid. Mae uwch arweinwyr a chydlynwyr wedi ffurfio cysylltiadau a chydweithrediad strategol â llawer o sefydliadau allanol ar draws Sir Benfro, y maent yn gweithio'n dda â nhw'n anffurfiol. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiadau hyn wedi'u ffurfioli'n ddigonol i ddarparu manteision partneriaeth gynaledig, fel llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr a'r cyfle i feithrin gallu ar gyfer gwelliant parhaus i ddysgwyr sy'n cysylltu'n effeithiol â newid o ran anghenion cyflogaeth ac anghenion dysgu personol.

Mae gan Sir Benfro yn Dysgu ystod dda o ganolfannau dysgu gydag offer da ynddynt. Mae gan y rhan fwyaf o'r ystafelloedd ddodrefn sy'n briodol i oedolion sy'n dysgu. Mae gan lawer ohonynt fyrddau gwyn electronig sy'n helpu tiwtoriaid i wella cyflwyniadau. Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau dysgu wedi'u clystyru'n briodol yng nghanol a de Sir Benfro ac mae llai o leoliadau dysgu yng ngogledd y sir i gyfateb i'r boblogaeth. Mae Sir Benfro yn Dysgu wedi rhoi gweithdrefnau iechyd a diogelwch

ychwanegol priodol ar waith, sydd wedi helpu dysgwyr i deimlo’n hyderus wrth ddychwelyd i ddysgu wyneb-yn-wyneb.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi'r deilliannau o'r holiaduron i ddysgwyr a staff

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol a thiwtoriaid unigol i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith a chlywed eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi ac yn siarad â dysgwyr y tu allan i sesiynau
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth
- yn ystyried cynlluniau'r bartneriaeth ar gyfer gwella ansawdd ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ddarpariaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar ystod eang o ddogfennau'r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesiadau a chynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff llywodraethol (lle bo hynny'n briodol), gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Addysg a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 16/06/2022